Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd yn cynnwys arweinwyr prif asiantaethau cyhoeddus y sir. Mae'r Bwrdd yn cynnig arweiniad i'r sir, yn cydweithio ar brosiectau arbennig, ac yn gweithredu ar y cyd i chwilio am gyfleoedd ac i ddatrys problemau ar lefel sirol.

Y nod yw gwasanaethu pobl Gwynedd yn well trwy ragor o gydweithio. Mae gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn seiliedig ar Strategaeth Gymunedol Gwynedd – Gwynedd ar y Cyd. Mae Strategaeth Gwynedd ar y Cyd yn amlinellu blaenoriaethau'r sir rhwng 2008 a 2012.
Nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gyfrifol am weinyddu gwasanaethau unigol. Yn hytrach mae'n cymryd golwg ehangach ar y sialensiau sydd yn wynebu'r sir ac yn gweithredu ac yn cydweithio er mwyn cwrdd ag anghenion dinasyddion yr ardal.

Prosiectau

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd wedi adnabod y prosiectau canlynol fel blaenoriaethau presennol

Partneriaid Mewn Gofal - Ail fodelu Gwasanaethau iechyd a gofal yn y Gymuned. Prosiect arloesol sydd yn ceisio gwella gwasanaethau iechyd a gofal yn lleol trwy ragor o gydweithio rhwng y Gwasanaethau Iechyd, Cymdeithasol a Gwirfoddol.

Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd
Prosiect sy'n anelu at leihad sylweddol mewn allyriadau carbon yng Ngwynedd, gyda phrif asiantaethau cyhoeddus Gwynedd yn arwain y ffordd.

Prosiectau Cydweithio Lleol
Adnabod prosiectau lleol lle gellir cydweithio, rhannu adnoddau, a darparu gwasanaethau yn fwy effeithiol.

Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd

Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gogledd- orllewin Cymru
Prifysgol Bangor

Coleg Menai
Mantell Gwynedd
Cyngor Sir Gwynedd
Parc Cenedlaethol Eryri
Heddlu Gogledd Cymru
Llywodraeth y Cynulliad

I gael rhagor o wybodaeth am waith Gwynedd ar y Cyd, a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol cysylltwch â :

Cydlynydd Gwynedd ar y Cyd,
Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd, Caernarfon LL55 1SH
E bost gwyneddarycyd@gwynedd.gov.uk
Gwefan www.gwyneddarycyd.org.uk
Ffon 01286 679906